



Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Lleihau nifer yr oedolion nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Targed
A	Camau Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid	
1	Byddwn yn gweithredu chwe cham y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.	Mawrth 2018
2	Byddwn yn cynnal hunanasesiad o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn erbyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.	Mawrth 2018
B	Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	
1	Byddwn yn darparu elfennau lleol prosiectau Cam Nesa a Chynnydd.	Mawrth 2020
2	Byddwn yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i ddatblygu fframwaith i gomisiynu cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a darparu cwricwlwm amgen o Ionawr 2019 i ddisodli'r gwasanaethau a gynigir drwy Brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop Cynnydd, sydd i ddod i ben yn hydref 2018.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn datblygu gwasanaethau craidd i gefnogi pobl ifanc (15-25 oed) sy'n profi rhwystrau i ddysgu a chyflogaeth oherwydd cyflwr cronig. Bydd y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael ei seilio ar yr hyn a ddysgwyd mewn perthynas â'r hyn weithiodd yn ystod rhaglen Cynnydd a phrosiectau Cam Nesa.	Mawrth 2020
C	Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin	
1	Byddwn yn gweithredu 20 o argymhellion Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin.	Mawrth 2018
2	Byddwn yn cyflwyno llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chysiau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) i drigolion Sir Gaerfyrddin a newydd-ddyfodiaid i'r sir.	Mawrth 2018
D	Adolygiad Dyfodol Llwyddiannus Sir Gaerfyrddin – Palmantu'r Ffordd	
1	Byddwn yn parhau i gynllunio cwricwlwm Sir Gaerfyrddin ar y cyd ag ERW (Ein Rhanbarth ar Waith), ysgolion a phartneriaid eraill, yn unol â blaenoriaethau, gofynion a chanllawiau cenedlaethol (<i>Hefyd yn Amcan 3</i>)	Mawrth 2018
2	Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i "ennill cymwysterau da a chael addysg dda" ac yn cynllunio cyflogadwyedd pobl ifanc fel eu bod yn ffynnu yn y farchnad swyddi leol, ranbarthol a rhyngwladol.	Mawrth 2018
3	Byddwn yn sicrhau bod Cydnerthu Cymunedol, gan gynnwys sicrhau bod gan bobl agored i niwed fynediad cyfartal i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn brif amcan yng nghynllun trawsnewid gwasanaeth dydd Anabledd Dysgu. Bydd hyn yn cynnwys modelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth.	Mawrth 2018

H	Mesurau Perfformiad	
1	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.1 oedd PAM/009) (Hefyd yn Amcan 5) (Canlyniad 2016/17 - 2.1%)	2.0%
2	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2) (Hefyd yn Amcan 5) (Canlyniad 2016/17 - 2.0%)	1.9%
3	Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34a) (Canlyniad 2016-17 - 56.3%)	62.5%
4	Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34b) (Canlyniad 2016-17 - 50%)	55%